## PROSIECT ARWAIN ADFERIAD GLAS CYMRU

# Adroddiad Blwyddyn 1 – Hydref 2021 – Medi 2022

**Cyflwyniad**

Yn dilyn pandemig Covid, daeth rhanddeiliaid morol a physgodfeydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) ynghyd fel Partneriaeth Adfer Glas wedi'i hadnewyddu i ystyried y ffordd orau o gefnogi camau datblygu cynaliadwy i helpu adferiad cymunedau arfordirol, ac i gyflawni ein gweledigaeth o foroedd sy'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol i Gymru.

Fis Medi'r llynedd yng nghyfarfod Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG), croesawodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, gynnig WMAAG i 'Arwain Adferiad Glas' a gofynnodd i aelodau ddatblygu Cynllun Gweithredu Adferiad Glas i'w gyflawni yn ystod y tymor Senedd hwn. Gofynnwyd i'r aelodau weithio gyda swyddogion polisi i nodi camau penodol, canolbwyntio ar gyflawni, a mynegi'r hyn a wneir yn wahanol yn ymarferol.


Bydd ecosystemau morol gwydn a'r twf y gallent ei gyflawni drwy adfer natur a meithrin gallu yn y gymuned yn cyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach ac ymgorffori ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Yng Nghymru, mae gennym lawer o ddulliau gweithredu, pobl a phrosiectau eisoes sy'n ceisio cefnogi ecosystemau morol a'r buddion a gawn ganddynt. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy, ac mae angen i ni ei wneud yn gyflymach, gan ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithiol.

Nododd WMAAG dri maes gwaith i'w cyflymu a galluogi gweithredu ar gyfer ein hamgylchedd, ein heconomi, a'n llesiant cymdeithasol a diwylliannol. Hebddynt, mae'r ddarpariaeth yn cael ei llesteirio gan ddiffyg ymrwymiad, cyllid hirdymor a gallu a galluogrwydd:

- ***Llythrennedd Morol*** *– meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru yn cysylltu ag arfordiroedd a moroedd Cymru, effaith ein gweithredoedd cyfunol ac unigol ar iechyd cefnforoedd a sut mae iechyd cefnforoedd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd - gan arwain at welliannau o ran sut rydym yn rheoli a defnyddio ein harfordiroedd a'n moroedd;*
- ***Buddsoddiad Cynaliadwy*** *– sicrhau mathau arloesol a thymor hwy o gyllid cyhoeddus, preifat a chyfunol - i gyflawni amcanion allweddol, adfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig a thrawsnewid systemau economaidd-gymdeithasol;*
- ***Meithrin gallu*** *– galluogi cydweithio a chydgynhyrchu i annog camau cydgysylltiedig, yn lleol gyda'n cymunedau, yn genedlaethol ac ar draws ffiniau, i ymateb i anghenion a chyfleoedd sy'n newid, wrth i'r pwysau ar ein harfordiroedd a'n moroedd gynyddu ac wrth i amodau newid.*

Mae ffigur 1 isod yn crynhoi'r dull hwn.




Mae adroddiad uchafbwyntiau cyntaf y prosiect yn rhoi diweddariad ar y cynnydd ers mis Medi 2021. Cyfarfu'r grŵp llawn bron 5 gwaith, am gyfanswm o 9 awr, yn ystod y flwyddyn, gweler **Atodiad 1** ar gyfer amserlen y cyfarfodydd.

Yn gryno, mae'r grŵp wedi:

- Nodi a mapio cyfres o gamau ar gyfer gweithredu o dan bob un o'r themâu Adferiad Glas, a naratif cyffredin
- Cynnal adolygiadau cychwynnol i bennu man cychwyn ar gyfer pob un o'r tair thema
- Cychwyn a chynnal gweithdai rhanddeiliaid i fesur arferion cyfredol a chamau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer dwy o'r themâu
- Cynghori ar ddatblygu Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru (Cynllun i Olynu’r EMFF) i gynnwys amcanion Adferiad Glas.

**<u>Sefydlu a bwrw ymlaen â chamau i gyflawni themâu Adferiad Glas</u>**

Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021 i nodi a blaenoriaethu cyfres o gamau gweithredu i'w cyflawni yn erbyn y galluogwyr allweddol, gweler **Atodiad 2**.

Nodwyd gweithredoedd i:

- Ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a chyrhaeddiad y mecanweithiau presennol - er enghraifft, ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd perthnasol a chysylltu â chymunedau arfordirol gan gynnwys drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Adeiladu ar y rhaglenni gwaith sylweddol sydd eisoes ar waith ond sydd angen eu hehangu / darparu mwy o adnoddau ar eu cyfer er mwyn galluogi eu cyflwyno'n gyflymach.

- Dysgu o'r enghreifftiau o brosiectau/ gwaith cyfredol ac arferion gorau a allai lywio rhaglen ehangach o gyflawni ledled Cymru.

- Defnyddio'r gweithgorau presennol a allai gyflawni'r gwaith partneriaeth gofynnol, gan sicrhau eu bod wedi eu cysylltu'n well gan nodi unrhyw fylchau

- Defnyddio egwyddorion CAMPUS (Cyraeddadwy {gan y Bartneriaeth}, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol)

Bu cyfarfodydd dilynol yn trafod ac archwilio'r man cychwyn ar gyfer pob thema a nodwyd aelod o'r grŵp i roi’r camau ar waith. Mae Atodiad 2 hefyd yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau hyn hyd yn hyn.

**Llythrennedd Morol**

Y canlyniad a geisir o dan y thema hon yw bod gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn arwain at:

- Materion morol ac arfordirol yn cael gwell sylw ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol
- Newid ymddygiad a mwy o ddiddordeb ymhlith cymunedau lleol i fynd i'r afael â materion a heriau morol ac arfordirol
- Mwy o adnoddau ar gael i fynd i'r afael â materion morol ac arfordirol

Roedd aelodau sy'n cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Kirsty Lindenbaum a Kath Hughes, a Phrifysgol Caerdydd, Emma McKinley, eisoes yn cyfrannu at arolwg o Lythrennedd Morol yn y DU. Cynhaliwyd hwn yn 2020 a 2021 ac mae'n darparu rhywfaint o wybodaeth allweddol ar gyfer pennu meysydd allweddol i'w harchwilio a gweithredu yn eu cylch yng Nghymru. Cytunodd CNC i arwain a chydlynu gwaith ar y thema hon, yn enwedig gan ei bod yn cefnogi blaenoriaeth allweddol o fewn y Datganiad Ardal Morol 'ailgysylltu pobl â'n moroedd’.

Ym mis Mehefin, cynhaliodd CNC ddau weithdy ar-lein i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Cymru 'morol lythrennog' a chreu rhestr o gamau gweithredu â blaenoriaeth. Cafodd y gweithdai gefnogaeth wych, gyda 78 o gynrychiolwyr o 56 o sefydliadau ledled Cymru yn cymryd rhan.

Dyma rai o'r myfyrdodau allweddol o'r gweithdy:

Mae angen gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer Llythrennedd Morol yng Nghymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd y cynrychiolwyr na ddylai datblygu strategaeth fod ar draul cyflawni gweithredoedd yn y tymor byr.

Eisoes mae cryn waith yn digwydd ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd morol ac arfordirol a chysylltu pobl â'r amgylcheddau hyn. Nodwyd tua 80 o brosiectau unigol gan gynnwys prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ond mae'r Arolwg Cenedlaethol o lythrennedd morol yn dangos nad yw pobl yn cydnabod eu heffaith ar iechyd y moroedd ledled Cymru.

Y brif flaenoriaeth yw cysylltu a chydlynu partneriaid sy'n gweithio yn y maes hwn fel y gall y gwaith, gyda'i gilydd, gael mwy o effaith a ffocws – gall gweledigaeth a strategaeth gefnogi'r amcan hwn. Nododd y gweithdy flaenoriaethau allweddol eraill y mae angen mynd i'r afael â nhw gan gynnwys datblygu cyllid cynaliadwy i gefnogi canlyniadau llythrennedd morol a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

Bydd grŵp Gorchwyl a Gorffen Llythrennedd Morol wedi'i greu o gyfranogwyr yn y gweithdai yn cwrdd am y tro cyntaf ar 27 Hydref i ddechrau ymgymryd â chamau ymarferol fel y nodwyd eisoes.

Mae uchafbwyntiau'r adroddiad cryno llawn o'r gweithdy ynghlwm yn **Atodiad 3.**

**<u>Buddsoddi Cynaliadwy</u>**

Nod y thema hon yw sicrhau cyllid arloesol a hirdymor i gyflawni ecosystemau morol cydnerth.

Cyflwynodd Gareth Cunningham, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, bapur i ddechrau trafod opsiynau ar gyfer y thema Buddsoddi Cynaliadwy, a chlywodd y grŵp gyflwyniad gan Marine Scotland ar Gronfa Gwella Ecosystemau Morol yr Alban.

Bydd grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd ar 19 Hydref i benderfynu camau i

1) Cefnogi'r model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer adferiad natur, contract sydd wedi ei ddyfarnu i Finance Earth, Eunomia ac RSPB i ddarparu cyngor ar farchnadoedd gwasanaethau ecosystemau, dulliau ariannu arloesol, a modelau busnes perthnasol ledled Cymru. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer yr amgylchedd morol, gan nodi o bosibl ardaloedd /dulliau peilot i'w profi, er enghraifft i adfer ardaloedd o forwellt a morfeydd heli.
2) Bwrw ymlaen ag argymhellion perthnasol gan yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ar gyfer yr amgylchedd morol.
3) Archwilio'r ffordd orau o gyd-fynd â ffrydiau ariannu eraill a rhannu gwybodaeth.

**<u>Meithrin Gallu</u>**

Mae mwy o ymgysylltu a pherchnogaeth gan gymunedau/rhanbarthau arfordirol mewn perthynas â chynllunio a rheoli'r ardaloedd morol ac arfordirol yn elfen hanfodol o Adferiad Glas. Nod y thema hon yw galluogi a chynyddu ymgysylltiad cymunedol ystyrlon i nodi cyfleoedd a heriau lleol, gan gynyddu parodrwydd i fuddsoddi.

Peter Davies, Cadeirydd WMAAG sy'n arwain ar y maes gwaith hwn sy'n bwrw iddi yn y meysydd canlynol:

1) Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Cyllido (gweler isod) i benderfynu sut y gellir defnyddio buddsoddiad drwy Gynllun Morol a Physgodfeydd Cymru i gefnogi a meithrin gallu, yn benodol mewn cymunedau arfordirol.

2) Dysgu o fodelau a mentrau eraill, megis y fenter Championing Coastal Coordination (3Cs) yn Lloegr, Parc Morol Plymouth, a deall gwersi o fentrau blaenorol megis y Grwpiau Gweithredu Cyswllt Pysgodfeydd (FLAGs).

3) Archwilio'r ffordd orau o gysylltu ag Awdurdodau Lleol, y byd academaidd, y sector a fforymau arfordirol a Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4) Mapio rhwydweithiau lleol i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio

Un cam allweddol ar gyfer y cyfarfod ar 6 Hydref fydd nodi'r camau blaenoriaeth nesaf ar gyfer y thema hon a sut i'w symud ymlaen, ac yn y cyfarfod nesaf bydd allbwn o weithdai rhanddeiliaid Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru ar gael i'w hadolygu.

**Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru**

Mae Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru (cynllun i Olynu'r EMFF) yn sbardun allweddol i sicrhau cefnogaeth ariannol i'r diwydiant. Mae cefnogi datblygu'r cynllun hwn wedi bod yn ffrwd waith allweddol ar hyd y flwyddyn eleni, gan gyfrannu at y themâu Buddsoddiad Cynaliadwy a Meithrin Gallu.

Yn benodol, mae Peter Davies a'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Cyllido penodol, sy'n cynnwys aelodau o WMAAG, wedi gweithio gyda thîm Polisi Cyllido Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar ffenestri ariannu, ac ar yr elfen meithrin gallu.

Cynhaliwyd gweithdai i lywio cynlluniau ar gyfer meithrin gallu cymunedau arfordirol yn y dyfodol dan arweiniad tîm Tystiolaeth Strategol Llywodraeth Cymru ar 15 a 22 Medi.

**Llywodraethu**

Teimlai'r grŵp y byddai ailfrandio yn adlewyrchu'r ffocws newydd a'r dull partneriaeth a oedd bellach ar waith. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer yr hyn a fydd nawr yn Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) o hyn ymlaen. Fe wnaeth y grŵp hefyd adolygu opsiynau i benodi Cadeirydd newydd, gyda dymuniad i weld penodiad cyhoeddus Gweinidogol i arwain y grŵp y flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd bellach wedi cymeradwyo'r broses hon, a fydd yn gwneud cyfraniad at thema Llythrennedd Morol yn benodol, gan wneud datganiad clir ynghylch pwysigrwydd yr amgylchedd morol a sut rydym yn ei werthfawrogi yng Nghymru.

**Naratif Cyffredin**

Un o'r blaenoriaethau allweddol oedd i'r grŵp ddatblygu 'Naratif Cyffredin' strategol ac atyniadol â ffocws penodol, gweler **Atodiad 4,** i sicrhau diben cyffredin a negeseuon cyson. Mae hwn wedi cael ei gyd-ddatblygu a'i gytuno gan bartneriaid a bydd yn gefndir i bob gohebiaeth a gweithred Adferiad Glas. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd â logos partneriaid.

**Y Camau Nesaf**

Mae Cynllun Gweithredu Adferiad Glas yn cael ei ddrafftio, yn nodi Canlyniadau, meysydd gwaith a chamau gweithredu, y bydd y grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn parhau i weithio tuag atynt. Rôl y grŵp llawn fydd monitro ac adolygu cynnydd y camau hyn, gan werthuso llwyddiant a nodi camau ychwanegol i gwrdd â'r canlyniadau. Efallai y bydd yn fuddiol lleihau nifer y cyfarfodydd partneriaeth llawn i 3 y flwyddyn er mwyn galluogi gwaith pellach yn y grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

**<u>Amserlen Cyfarfodydd 22 – 23</u>**

**Cyfarfodydd Partneriaeth Lawn**

- 6 Hydref 2022, cyfarfod cyfunol trwy'r dydd, Parc Cathays, Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn bresennol.

Adolygiad o 21-22 a chynllunio at y dyfodol.

Canolbwyntio ar thema Meithrin Gallu.

- Chwefror 23

Canolbwyntio ar Lythrennedd Morol.

Adrodd yn ôl o adolygiad Tystiolaeth Strategol o ddulliau seiliedig ar le i feithrin gallu

- Mehefin 23

Canolbwyntio ar Fuddsoddiad Cynaliadwy.

- 23 Hydref, cyfarfod wyneb yn wyneb drwy'r dydd

Adolygiad o 22–23 a chynllunio at y dyfodol

**Cyfarfodydd nesaf y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen**

- Buddsoddi Cynaliadwy, 19 Hydref
- Llythrennedd Morol, 27 Hydref

## Atodiad 1 – Amserlen cyfarfodydd Blwyddyn 1

Rhagfyr 21 – Gweithdy Camau Gweithredu – hanner diwrnod

Chwefror 22 - cadarnhau gweithredoedd, blaenoriaethu, a chytuno ar y camau nesaf

Mawrth 22 – canolbwyntio ar Lythrennedd Morol – adolygiad o ganlyniadau Arolwg Llythrennedd Morol y DU a Chymru, cytundeb CNC / Prifysgol Caerdydd i fwrw ymlaen â'r gwaith. Papur opsiynau Buddsoddi Cynaliadwy.

Mehefin 22 – canolbwyntio ar Fuddsoddi Cynaliadwy – cyflwyniad gan Gronfa Gwella Amgylcheddol Morol yr Alban, cytundeb MCS i symud gwaith ymlaen trwy grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Gorffennaf 22 – cyfarfod llywodraethu byr i drafod penodiad Cadeirydd y dyfodol, enw'r grŵp a ffyrdd o weithio

## Atodiad 2 – Cyfres o Gamau Gweithredu, a nodwyd yng ngweithdy Rhagfyr 21, gyda'r cynnydd hyd yma

| | | |
|---|---|---|
| | **Camau gweithredu cyffredinol** | |
| A. | Edrych ar y canlyniadau a nodwyd ar gyfer y cynllun adfer glas, dysgu gwersi a gwerthuso camau blaenorol i nodi pam nad ydynt eisoes wedi'u cyflawni. Sicrhau ein bod yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol ac nid yn dechrau o'r dechrau. | Yn parhau trwy'r holl themâu – yn benodol, gweithdai rhanddeiliaid ar Lythrennedd Morol a Meithrin Gallu Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru |
| B. | Cyd-ddatblygu/cytuno ar naratif strategol ac atyniadol sydd â ffocws penodol er mwyn sicrhau negeseuon cyson ar draws partneriaeth WMAAG. | Cwblhawyd |
| **Llythrennedd Morol** – <br><br> **Canlyniad:** Bydd datblygu **llythrennedd morol** ar draws pob rhan o gymdeithas a chodi ymwybyddiaeth o arwyddocâd ein harfordiroedd a'n moroedd yn annog camau pellach ar draws meysydd polisi. <br> Mae llywodraethu, a chael gwybodaeth i'r agenda Newid Hinsawdd ar draws y Llywodraeth yn bwysig iawn. Mae hyn hefyd yn cysylltu â meithrin gallu lle gall ymgysylltu lleol a chymunedol drwy grwpiau fel fforymau arfordirol gael llais uwch ar y cyd. | | |
| 1. | Cynnal adolygiad trylwyr o'r cyfryngau a'r mecanweithiau sydd gennym ar hyn o bryd a sut maent yn cael eu defnyddio i godi proffil yr amgylchedd morol ac arfordirol, ar lefelau lleol a chenedlaethol. Cynnwys ymchwil i sut mae ymgysylltu a dysgu ynghylch y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd morol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd - e.e. drwy eco-ysgolion etc. <br><br> Opsiynau: <br> – Gwahodd tendrau ar gyfer prosiect ymchwil <br> – Rhanddeiliaid i gynorthwyo gyda drafftio amlinelliad o'r prosiect. <br> – Cysylltu â gwaith cyflawni datganiad ardal CNC <br> – Partneriaeth Aber Hafren/Fforwm Arfordir Sir Benfro i adnewyddu Cyfeiriadur Arfordirol fel y cam cyntaf. | Cytuno i symud y gwaith ymlaen mewn cysylltiad â gwaith datganiad ardal CNC <br><br> Gweithdai rhanddeiliaid ym mis Mehefin – 80 o brosiectau wedi’u coladu <br><br> Bwrw ymlaen bellach â chamau i gydlynu ac ymhelaethu drwy grŵp Gorchwyl a Gorffen. |

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Cyfathrebu a rhannu gwaith y grŵp hwn a phartneriaid eraill i gynulleidfa ehangach a'i wneud yn fwy hygyrch.<br>Dewisiadau/Tasgau:<br>– Yn ddibynnol ar ddatblygu naratif strategol â ffocws<br>– Defnyddio gwefan bresennol Cymru a'r Môr (Busnes Cymru) – ar y dudalen hon ar hyn o bryd mae tudalennau Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, ond efallai nad hwn yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol?<br>– Datblygu platfform newydd e.e. tebyg i blatfform Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru<br>– Penderfynu beth sydd ei angen arnom i allu cael platfform annibynnol ar gyfer Adferiad Glas.<br>– Rhanddeiliaid i helpu gyda darparu cynnwys.<br>– Dylai gysylltu â ffynonellau tystiolaeth ond gallai hefyd helpu gyda dehongli/dadansoddi<br>– Rhanddeiliaid yn hyrwyddo gwaith y grŵp hwn drwy eu rhwydweithiau eu hunain<br>– Ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol – rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru yn defnyddio eu sianeli presennol i hyrwyddo negeseuon Adferiad Glas. | Naratif yn gyflawn<br><br>Y rhain a chamau gweithredu eraill a nodwyd i'w symud ymlaen trwy'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Llythrennedd Morol |
| 3. | Llywodraethu ac ailfrandio grŵp WMAAG i adlewyrchu'n well y ffocws cyfredol ar Adferiad Glas, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth<br><br>Dewisiadau/Tasgau:<br>– Aelodau i ystyried trefniadau llywodraethu diwygiedig e.e.: Cadeirydd wedi'i benodi gan Weinidog, Cadeirydd sy'n Ddirprwy Gyfarwyddwr, Cadeirydd Annibynnol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>– Aelodau i ystyried enw newydd ar gyfer WMAAG e.e.: Partneriaeth Moroedd Gwydn Cymru, Cydnerthedd Morol Cymru, Economi Las Cymru, Moroedd Cynaliadwy Cymru, Partneriaeth Forol Cymru etc. | Cwblhawyd<br><br>Cychwyn Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru ar 6 Hydref |

| | | |
|---|---|---|
| | – Ailddrafftio'r Cylch Gorchwyl. | |
| 4. | Ymgysylltu â chymunedau lleol, yn enwedig drwy gael sylw Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Dewisiadau/Tasgau:<br>– Datblygu model ar gyfer ymgysylltu lleol sy'n darparu ffocws cymunedol (cysylltiad â 10 isod).<br>– Adeiladu ar gynnydd mae rhanddeiliaid yn ei wneud gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Cael ei wneud trwy thema meithrin gallu ar hyn o bryd ond i'w adolygu gan grŵp Gorchwyl a Gorffen Llythrennedd Morol |
| 5. | Ymgorffori Newid Hinsawdd a'r amgylchedd morol yn y cwricwlwm cenedlaethol er mwyn defnyddio pŵer pobl ifanc a sicrhau bod ymddygiad yn newid o oedran cynnar.<br><br>Dewisiadau/Tasgau:<br>– Adeiladu ar feysydd dysgu a phrofiad i ddatblygu pecynnau adnoddau<br>– Datblygu Heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang Bagloriaeth Cymru | Camau gweithredu i'w cymryd gan grŵp Gorchwyl a Gorffen Llythrennedd Morol |
| 6. | Gweithio gyda buddsoddiad twristiaeth i adeiladu'r profiad morol fel elfen allweddol o economi twristiaeth – ee Croeso Cymru/Canolfan Ragoriaeth Forol wedi'i ariannu gan yr UE yn Saundersfoot | Camau gweithredu i'w hadolygu gan grŵp Gorchwyl a Gorffen Llythrennedd Morol. Wedi'i gysylltu â thema meithrin gallu |
| **Buddsoddi Cynaliadwy**<br>**Canlyniad:** Mae **buddsoddi hirdymor cynaliadwy** a datblygu ffynonellau cyllid cyhoeddus a phreifat tymor hwy yn hanfodol i gefnogi cyflawni amcanion allweddol | | |
| 1. | Sicrhau bod y Cynllun sy'n Olynu'r EMFF yn cyflwyno'r themâu adferiad glas<br>Dewisiadau/Tasgau:<br>- Aelodau i gyfrannu at sesiynau rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynllun<br>– Galluogwyr Adferiad Glas yn rhan o'r meini prawf ariannu.<br>– Ariannu prosiectau Adferiad Glas penodol<br>– Cefnogi datblygiad mecanwaith ariannu LEADER / FLAG yn unol â meithrin gallu isod. | Ffurfiodd aelodau WMAAG y Grŵp Cynghori ar Gyllid Cynaliadwy. Datblygiad gwybodus ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol ac ar gyfer datblygu'r agwedd gweithredu dan arweiniad y gymuned – darpariaeth allweddol ar gyfer y thema Meithrin Gallu |
| 2. | Datblygu model buddsoddi cynaliadwy<br><br>Dewisiadau/Tasgau: | Papur ar opsiynau wedi'i gynhyrchu gan MCS |

| | | |
|---|---|---|
| | - Gosod safonau ar gyfer carbon e.e. codau carbon glas etc.<br>- Defnyddio trethi, ardollau a chynhyrchion ariannol gwahanol.<br>- Gwneud yn siŵr bod rhaglenni ariannu newydd yn llai cymhleth ac yn fwy hygyrch, gan ddysgu gwersi o brofiadau'r EMFF a FLAG.<br>- Dysgu o brofiad sefydliadau eraill mewn perthynas â'u dulliau ariannu. e.e: Arloeswyr Morol DEFRA, cynllun Hyrwyddo Cydlynu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, Palladium a Pharciau Cenedlaethol, Asesiad Cyfalaf Naturiol y Môr (o bosibl gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur).<br><br>**DS** – mae prosiect ar 'Ariannu Adferiad Natur' yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. Gellid cyflawni'r cam gweithredu hwn drwy wneud cysylltiadau agos â'r prosiect hwnnw, ac asesu unrhyw fewnbwn morol ychwanegol y gallai fod ei angen. | Adolygwyd Cronfa Gwella Ecosystemau Morol yr Alban.<br><br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen Buddsoddi Cynaliadwy i fwrw ymlaen â'r camau hyn, yn enwedig cyflwyno'r elfen forol ar gyfer y model cyflenwi Cynaliadwy ar gyfer adferiad ac argymhellion natur sy'n dod allan o'r Archwiliad Dwfn 30x30 |
| 3. | Creu siop-un-stop i ddarparu gwybodaeth / mynediad at wahanol ffrydiau ariannu. DS – cysylltiad â Llythrennedd Morol uchod<br>- Comisiynu adroddiad i gasglu gwybodaeth<br>- Ymchwilio a oes unrhyw un eisoes yn gwneud hyn.<br>- Yn bresennol mewn un man e.e. ar wefan Cymru a'r Môr (Busnes Cymru), neu blatfform arall | Camau i'w rhoi ar waith drwy brif gyfarfod y Bartneriaeth, 6 Hydref |
| **<u>Meithrin Gallu</u>**<br><br>**Canlyniad:** Bydd **meithrin gallu**, yn enwedig ar y lefel leol, yn galluogi ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned i nodi cyfleoedd a heriau lleol a chyflawni camau. | | |
| 1. | Nodi model hyblyg ar gyfer ymgysylltu lleol o amgylch materion morol ac arfordirol, gan ddarparu ffocws cymunedol i:<br>• nodi effeithiau ar gymunedau<br>• nodi atebion a chyfleoedd o'r gwaelod i fyny<br>• cynnwys prosiectau ac anghenion tystiolaeth lleol, er mwyn paratoi'r tir ar gyfer cynyddu gallu | Yn cael ei symud ymlaen trwy ddatblygu Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru gyda mewnbwn a chyngor gan aelodau WMAAG.<br><br>e.e. nododd gweithdai rhanddeiliaid Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru grwpiau lleol a chenedlaethol/gallu |

<table>
<tr><td></td><td>

- defnyddio a chyfeirio cyllid i hwyluso datblygu cynaliadwy a gwydnwch morol.
- Ail-ymgysylltu â physgodfeydd y glannau

Opsiynau/tasgau

- Nodi grwpiau lleol a chenedlaethol cyfredol – sy'n gysylltiedig â cham gweithredu 1 uchod (Llythrennedd Morol) (megis drwy bartneriaethau arfordirol ac ymgorffori ystyriaethau morol ac arfordirol yn gryfach o fewn darpariaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus)
- Cael sgwrs strategol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; mewn perthynas â'i chadeiryddiaeth o Fforwm Arfordirol Cymru
- Targedu dylanwadwyr allweddol - e.e. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – i sicrhau bod ystyriaethau morol yn cael eu cynnwys wrth gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Angen cynnwys Pwyllgor Senedd Cymru hefyd
- Defnyddio cyflwyno Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ac ymgorffori ffocws morol arfordirol er mwyn meithrin gallu

</td><td>

Mae Cadeirydd y grŵp wedi ymgysylltu ac yn sicrhau cysylltiad â:

- CLlLC
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Parciau Morol
- Datblygiad y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol
- Hyrwyddo Cydlynu'r Arfordir

</td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Sefydlu Bwrdd ymgysylltu trawslywodraethol mewnol Llywodraeth Cymru i gynnwys twristiaeth, ansawdd dŵr, erydiad arfordirol a llifogydd</td><td>Camau eraill i'w hadolygu a'u diweddaru/eu symud ymlaen gan grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol</td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Cynnig sesiynau hyfforddi rhithwir i bob Awdurdod Lleol ar y cynllun morol a sut y dylid ei gymhwyso.</td><td></td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Meithrin gallu a galluogrwydd drwy leoliadau (yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill), ymwneud ag ymchwil (e.e. y diwydiant pysgota) a thrwy bartneriaethau gyda Phrifysgolion wrth adeiladu'r platfform tystiolaeth.</td><td></td></tr>
<tr><td>5.</td><td>Dilysu ein pysgodfeydd fel rhai cynaliadwy, ac adeiladu sector dyframaethu gyda chefnogaeth y gymuned.</td><td></td></tr>
</table>

## Atodiad 3 Adroddiad Cryno o'r Gweithdy Llythrennedd Morol

Ocean literacy
workshop report June

## Atodiad 4 Naratif Cyffredin

Blue Recovery -
Shared Narrative FIN/